Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Brynrefail
# Llanrug
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 4AD

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd yw Ysgol Brynrefail. Mae ynddi 790 o ddisgyblion yn cynnwys 120 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol ym mhentref Llanrug, ar y ffordd rhwng Caernarfon a Llanberis. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion o Lanrug a'r ardal wledig o gwmpas. Daw mwyafrif helaeth y disgyblion o ardaloedd heb fod yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd neu gymdeithasol. Mae 8.2% o'r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol o 17.4%. Mae bron pob un o'r disgyblion yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae tri y cant o'r disgyblion ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn ychydig yn is na'r canran genedlaethol. Yn ogystal, mae 14% o'r disgyblion ar gamau 'gweithredu ysgol' a 'gweithredu ysgol a mwy' sydd ychydig yn is na'r canran cenedlaethol.

Daw 91% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith y cartref. Mae 99% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Gwna'r ysgol drefniadau arbennig ar gyfer yr ychydig hwyrddyfodiaid sydd heb fynychu addysg Gymraeg. Cyflwynir 70% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg a 30% trwy gyfrwng y Saesneg.

Tîm o dri sy'n arwain yr ysgol. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym 1998. Ymunodd un dirprwy bennaeth â'r ysgol ym Medi 2011 a'r llall yn Ionawr 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Brynrefail yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,155 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Gwynedd yw £5,098 a'r lleiafswm yw £3,942. Mae Ysgol Brynrefail yn safle 13eg o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yng ngwaith yr ysgol yn cynnwys:

- cynnydd ym mherfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3;
- addysgu da mewn llawer o'r gwersi;
- gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion sydd nawr yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg;
- gofal, cymorth ac arweiniad cynhwysfawr;
- ymddygiad da iawn gan ran fwyaf o'r disgyblion; a
- chwricwlwm eang yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth sy'n cwrdd â gofynion disgyblion.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad yn ddigonol ar y cyfan oherwydd:

- bod perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn gyson is nag ydyw mewn ysgolion tebyg;
- darpariaeth rhy anghyson i ddatblygu holl fedrau disgyblion; a
- gormod o amrywiaeth yn ansawdd yr adborth i ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae newidiadau diweddar i aelodaeth yr uwch dîm arwain wedi cryfhau'r her i reolwyr canol;
- mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella;
- mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi'u treiddio ar draws yr ysgol;
- mae gormod o gyfrifoldebau gan yr uwch dîm arwain;
- mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd y rheolaeth ganol;
- nid yw defnydd arweinwyr o ddata i olrhain cynnydd a monitro ac arfarnu perfformiad wedi ei ddatblygu'n ddigonol;
- mae'r ysgol wedi ymateb yn rhy araf i flaenoriaethau cenedlaethol, megis llythrennedd a rhifedd;
- nid yw'r corff llywodraethol yn gweithredu fel cyfaill beirniadol; ac
- nid oes digon o gynnydd ers yr arolygiad diwethaf mewn meysydd pwysig, megis cysoni ansawdd yr asesu a herio tanberfformiad.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4;

A2 datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm;

A3 gwella'r cysondeb yn ansawdd y marcio ac adborth i rieni;

A4 cryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol;

A5 cryfhau a chysoni atebolrwydd rheolwyr canol;

A6 cryfhau'r cyswllt rhwng hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol; a

A7 sicrhau bod y disgybl lywodraethwyr yn llwyr ymgymryd â'u rôl.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno wedi cynyddu'n sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Ers 2010, mae wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion, ac ers 2011, mae wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Gwelir patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Mewn Saesneg a Chymraeg, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 6 ac yn uwch, islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mewn gwyddoniaeth a mathemateg, mae'r cyfartaledd yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Dros y pedair blynedd diwethaf, er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella, oni bai am 2011, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol yn is na'r teulu ac ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi amrywio, ond yn 2011 am y tro cyntaf, roedd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Dros y pedair blynedd diwethaf, ac eithrio 2011, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Ac eithrio Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3, a Chymraeg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol ym mherfformiad bechgyn a merched. Yn 2011, fe wnaeth disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim berfformio'n dda iawn ar draws ystod o ddangosyddion o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid oedd eu perfformiad mor gryf yn 2010 a 2009. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth wedi amrywio, ond yn gyffredinol mae'n is na chyfartaledd y sir a chyfartaledd Cymru.

Dros y tair blynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi methu ennill cymhwyster cydnabyddedig, ac ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant amser llawn. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd sirol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi; fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi nid yw'r disgyblion mwy abl yn cyrraedd eu llawn potensial. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog ac maent yn datblygu dealltwriaeth fanwl a chynhwysfawr o destunau newydd ac yn cysylltu hwn yn effeithiol gyda dysgu blaenorol a chyd-destunau ehangach. Mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd mewn gwersi blaenorol, ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw datblygiad medrau disgyblion yn ddigon cyson ar draws y pynciau.

Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn, maent yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn parchu eu cymheiriaid pan maent yn ateb

cwestiynau neu'n cyflwyno gwybodaeth o flaen y dosbarth. Mae llawer yn gweithio'n frwdfrydig mewn grwpiau a pharau, yn dangos cymhelliant amlwg wrth weithio ac yn rhoi a derbyn gwybodaeth a rhannu syniadau yn effeithiol. Mewn lleiafrif o wersi mae disgyblion yn siarad yn glir, yn defnyddio iaith raenus ac yn hyderus wrth gyflwyno syniadau o flaen eu cyfoedion. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion yn unig sy'n cynnig atebion estynedig ar lafar ac mae geirfa Saesneg disgyblion yn fwy cyfyng na'u geirfa yn y Gymraeg.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg. Maent yn gallu dewis a dethol gwybodaeth newydd a dyfyniadau i gefnogi barn. Cyrhaeddant gasgliadau priodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymarfer eu darllen yn ddigonol mewn amrediad digon eang o bynciau ar draws y cwricwlwm. Mae medrau darllen disgyblion yn well yn y Gymraeg nag yn y Saesneg. Mae'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol trwy gynlluniau darllen Cymraeg a Saesneg yn gwneud cynnydd priodol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu i ystod o wahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd, ac mae lleiafrif yn ysgrifennu'n estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn ysgrifennu adroddiadau, erthyglau papur newydd, cymharu ffynonellau ac yn mynegi barn. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o eirfa bynciol. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadegol mewn gwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion. Nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig trwy gyfrwng y Saesneg yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae ansawdd eu gwaith ysgrifenedig Saesneg yn is na gwaith sy'n cael ei ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae disgyblion yn ailddrafftio gwaith mewn ychydig iawn o bynciau'n unig. Yn gyffredinol, er bod llawer o athrawon yn marcio'u gwaith yn rheolaidd, nid yw disgyblion yn ymateb i sylwadau athrawon. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn daclus.

Mewn lleiafrif o bynciau mae disgyblion yn ymarfer eu medrau rhif. Fodd bynnag, nid ydynt yn datblygu eu medrau neu'n ymarfer a datblygu medrau rhif yn rheolaidd ar draws ystod digon eang o bynciau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl yn briodol ar draws ystod o bynciau. Fodd bynnag, nid yw medrau technoleg gwybodaeth y mwyafrif o'r disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol ar draws ystod digon eang o bynciau.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan frwdfrydig mewn amrywiaeth eang o weithgareddau hybu ffitrwydd, er enghraifft dawns a rygbi, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod yr ysgol yn eu dysgu'n effeithiol am fywyd a bwyta'n iach.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod ymysg y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymgartrefu'n gyflym i weithio. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o'r disgyblion yn cyrraedd yn hwyr oherwydd problemau teithio trwy'r coridorau cul mewn rhannau o'r ysgol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion, mewn gwersi ac ar safle'r ysgol, yn dda iawn. Maent yn dangos cymhelliant amlwg ac yn gweithio'n frwdfrydig mewn gwersi.

Yn ddiweddar, mae rôl y cyngor ysgol wedi datblygu'n briodol ac mae'r cyngor yn cyfrannu'n effeithiol tuag at newidiadau i fywyd yr ysgol sydd yn dechrau cael dylanwad cadarnhaol ar addysg, iechyd a lles disgyblion. Mae cyngor yr ysgol wedi ethol disgybl lywodraethwyr; fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gwneud cyfraniadau brwdfrydig i gymuned yr ysgol ac i'r gymuned ehangach trwy raglen Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r holl ofynion statudol. Cynigir dewis cyfoethog o gyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae hyn wedi sicrhau profiadau mwy eang ac addas i ddysgwyr unigol. Mae'r ysgol yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel sylfaenol, canolradd ac uwch i holl ddisgyblion Blwyddyn 10 a'r chweched dosbarth. Cynigia'r ysgol ystod o gyfleoedd a phrofiadau allgyrsiol mewn nifer o feysydd.

Mae cyfleoedd addas i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a meddwl wedi'u nodi yng nghynlluniau gwaith y rhan fwyaf o adrannau yn ôl perthnasedd y pwnc. Nid yw'r cynllunio hwn, fodd bynnag, yn cael ei adlewyrchu'n llawn yn yr holl wersi nac yng ngwaith y disgyblion. Mae cynllunio ar gyfer medrau llythrennedd yn fwy datblygedig na rhai rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Nid yw cynllunio ar gyfer medrau llythrennedd yn y Saesneg wedi ei ddatblygu i'r un graddau ag yn y Gymraeg. Cefnogir disgyblion sydd ag oedran darllen sy'n is na'r oedran cronolegol trwy gefnogaeth y tu hwnt i'r dosbarth a chlybiau darllen boreol. Mae rhaglenni ymyrraeth yr ysgol yn briodol i gefnogi disgyblion sydd ag anawsterau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Rhoddir lle amlwg i'r Cwricwlwm Cymreig ar draws y cwricwlwm sy'n cyd-fynd ag ethos a diwylliant yr ysgol a'r gymuned. Mae amrediad eang a chyfoethog o gyfleoedd i ymgymryd â gwahanol weithgareddau allgyrsiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae lleiafrif o bynciau ar draws y cwricwlwm, megis gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a daearyddiaeth, yn datblygu elfennau datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol. Prin yw'r cysylltiadau rhyngwladol. Mae ychydig o fyfyrwyr y chweched dosbarth wedi bod yn gweithio gyda dwy ysgol gynradd leol ar brosiectau amgylcheddol. Cynhelir diwrnod 'Masnach Deg' yn flynyddol ar gyfer holl ddisgyblion Blwyddyn 9 sydd yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o faterion yn ymwneud â'r economi rhyngwladol yn effeithiol. Mae'r eco-bwyllgor newydd yn dechrau datblygu rôl briodol.

**Addysgu: Digonol**

Mae llawer o athrawon yn cynllunio’n ofalus ac yn cysylltu’r dysgu’n effeithiol gyda phrofiadau blaenorol. Mae bron pob un o’r athrawon yn modelu iaith yn effeithiol a’r mwyafrif yn atgyfnerthu termau pynciol yn rheolaidd. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda. Mae rheolaeth dosbarth yn gadarn, awyrgylch gweithgar yn yr ystafell ddosbarth a pherthynas dda rhwng staff a disgyblion. Mewn llawer o wersi, gwelir nodau ac amcanion clir a thasgau pwrpasol sy’n ysgogi disgyblion. Mewn ychydig o wersi, mae athrawon yn gwneud defnydd dychmygus a chreadigol o adnoddau i gynnal diddordeb a chymhelliant y disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae tasgau’n herio disgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl, ac mae’r cwestiynu’n grefftus ac yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw’r addysgu’n ddigon effeithiol i sicrhau bod y disgyblion, yn enwedig disgyblion mwy abl, yn gwneud digon o gynnydd. Mae symudiad y wers yn rhy araf ac nid yw’r tasgau’n herio disgyblion yn ddigonol. Yn ogystal, mae’r cwestiynu’r rhy gaeedig ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion gynnig atebion estynedig ar lafar.

Ers mis Medi cyflwynwyd polisi asesu newydd i gysoni gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd. Mae mwyafrif o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol i ddisgyblion yn ystod gwersi ac yn marcio gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae’r newidiadau hyn yn rhai diweddar iawn ac mewn lleiafrif o achosion mae sylwadau athrawon yn rhy arwynebol i gynorthwyo disgyblion i wella safon eu gwaith. Mewn lleiafrif o adrannau mae esiamplau da iawn o ddisgyblion yn hunanasesu ac yn asesu gwaith eu cymheiriaid. Fodd bynnag, mae anghysondeb yn amlder ac effaith y strategaethau hyn ar gynnydd disgyblion. Yn ystod y tymor hwn, cyflwynwyd system olrhain newydd. O ganlyniad, mae gan staff fynediad hwylus i wybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion. Mae defnydd tiwtoriaid dosbarth, penaethiaid blwyddyn ac arweinwyr pwnc o’r wybodaeth hon i adnabod tangyflawni wedi datblygu’n briodol yn ystod y cyfnod hwn. Mae adroddiadau interim priodol ac mae’r trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd y sylwadau i rieni ac yn y mwyafrif o achosion nid yw’r sylwadau’n rhoi arweiniad digon clir i rieni a disgyblion am yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol. Darperir rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol eang a chynhwysfawr. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag asiantaethau lleol i hybu gwaith y tîm bugeiliol. Yn y modd hwn, sicrheir fod gan Ysgol Brynrefail dîm o arbenigwyr amrywiol i fodloni’r ystod o ofynion ac anghenion ei disgyblion. Cydlynir gwaith y tîm hwn yn ofalus. Caiff hyn ddylanwad cadarnhaol ar safonau ymddygiad.

Ers Medi 2012 mae uned cynhwysiant wedi ei sefydlu ar safle’r ysgol. Mae’r uned yn darparu cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion sydd ag anawsterau ymdopi gydag addysg brif lif neu sydd â phroblemau emosiynol dwys. Mae disgyblion sy’n newydd i’r ysgol yn cael cyfleoedd gwerthfawr i integreiddio ac ymgartrefu ym mywyd yr ysgol. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o gynlluniau dysgu unigol wrth gynllunio gwersi. O ganlyniad, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae gwersi addysg grefyddol a sesiynau cofrestru boreol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae gan yr ysgol dîm effeithiol o gymorthyddion dysgu i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol ar lawr y dosbarth ac mewn grwpiau bach.

Mae bron pob disgybl yn derbyn gwybodaeth a chyngor perthnasol, da wrth iddynt ddewis cyrsiau cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae awyrgylch cartrefol, braf a chynhwysol yn Ysgol Brynrefail. Rhoddir pwyslais ar drin pob disgybl fel unigolyn gan barchu ei gefndir a chredoau. Pwysleisir pwysigrwydd hunan-barch a pharch at eraill yn gyson ac mae hyn yn dylanwadu ar y modd gwaraidd a chyfrifol mae llawer o'r disgyblion yn ymddwyn tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r ysgol yn darparu adnoddau priodol ar gyfer y disgyblion a'r gweithgareddau a gynigir. Fodd bynnag, mae'r cyfrifiaduron yn hen ac yn araf. Ceir amgylchedd dysgu ysgogol gyda nifer o arddangosfeydd lliwgar o waith disgyblion. Mae adnoddau o safon dda yn yr adran addysg gorfforol.

Mae'r toiledau yn anghynnes ac mae ambell i ardal yn llwm. Er bod y coridorau'n gul iawn, mae'r disgyblion yn symud o gwmpas y safle yn ofalus. Mae'r ffreutur yn fach ar gyfer nifer y disgyblion, ond mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i ymdopi â hyn.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinwyr yr ysgol wedi paratoi cynlluniau a pholisïau sy'n canolbwyntio'n briodol ar gwrdd ag anghenion ei disgyblion. Mae arweinwyr wedi dechrau gwneud defnydd mwy cyson o ddata perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O ganlyniad, mae dealltwriaeth arweinwyr o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol wedi gwella.

Y pennaeth yw'r unig un o'r tri aelod o'r tîm rheoli a oedd yn ei swydd pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2006. Mae'r ddau ddirprwy bennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wella ansawdd yr arweinyddiaeth a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae disgrifiadau swydd yn glir. Mae'r strwythur rheolaeth yn hysbys, ond nid yw'n llawn effeithiol gan nad yw'n cwrdd ag anghenion cyfredol yr ysgol. Tîm bach o dri yw'r tîm rheoli ac mae ganddynt nifer sylweddol o gyfrifoldebau traws-ysgol yn ogystal â chyfrifoldeb fel rheolwyr llinell dros nifer fawr o gydweithwyr. Nid yw rôl ysgol-gyfan rheolwyr canol wedi ei datblygu i'w llawn botensial.

Mae pob aelod o'r tîm rheoli'n gweithredu fel rheolwr cyswllt i nifer o arweinwyr canol. Wrth gyflawni'r rôl hon, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae uwch arweinwyr wedi dechrau herio rhai penaethiaid adran o ran y safonau yn eu hadrannau, gan rhoi ffocws briodol, i'r adrannau hynny lle y gwelwyd y tangyflawniad mwyaf sylweddol.

Mae ansawdd a chysondeb gwaith arweinwyr canol wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wrth i systemau rheolaeth cadarnach gael eu cyflwyno. Gwelir arweinyddiaeth gadarn ym mwyafrif yr adrannau. Mewn lleiafrif o adrannau nid yw'r arweinyddiaeth yn ddigon effeithiol, yn enwedig o ran herio staff a mynd i'r afael â thanberfformiad.

Mae rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd yn galluogi arweinwyr ar bob lefel i rannu gwybodaeth a chyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb yn nhrefn a chynnwys cyfarfodydd ac yn y defnydd o gofnodion a phwyntiau gweithredu i sicrhau gweithredu priodol yn dilyn cyfarfodydd.

Mae gan yr ysgol system rheoli perfformiad addas sy'n cael ei gweithredu'n gyson, gyda chysylltiad priodol rhwng y targedau ar gyfer athrawon unigol, blaenoriaethau cynlluniau datblygiad a'r trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon. Er hynny, mae anghysondeb yn ansawdd y targedau yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y broses.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'r ysgol. Erbyn hyn, mae llywodraethwyr yn ymwybodol o'r prif feysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae eu cyfarfodydd yn cynnwys trafodaeth o faterion perthnasol, ond nid yw llywodraethwyr wedi herio'r ysgol ddigon, yn enwedig o ran safonau cyrhaeddiad. Nid oes strwythur priodol o bwyllgorau i alluogi llywodraethwyr i gymryd rhan weithredol, lawn yn y broses o reoli'r ysgol. Hefyd, nid yw'r ysgol eto wedi trefnu i gynrychiolwyr cyngor yr ysgol gyfrannu at waith y corff llywodraethol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i ystod o flaenoriaethau cenedlaethol, megis llwybrau dysgu 14-19 a chynhwysiad. Mae'r ysgol wedi rhoi sylw diweddar i ddatblygu holl fedrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanarfarnu priodol ar waith ar lefel ysgol-gyfan ac o fewn adrannau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae natur a ffocws y gweithgareddau arfarnu wedi cryfhau ond mae anghysondeb yn y ffordd mae lleiafrif o arweinwyr canol yn gweithredu.

Mae cysylltiad amlwg a phriodol rhwng gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliant. Eleni am y tro cyntaf, cyflwynwyd adroddiad hunanarfarnu ysgol-gyfan sy'n cynnwys adolygiad trylwyr o bob agwedd ar fywyd Ysgol Brynrefail. Mae'n adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Rhoddwyd ystyriaeth briodol i safbwyntiau staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr ond nid yw'r arfer hon wedi ei datblygu'n ddigonol.

Mae safon hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r adrannau wedi datblygu'n briodol yn ddiweddar. Maent wedi defnyddio patrymlun cyffredin ond mae lleiafrif o adrannau yn parhau i fod yn rhy ddibynnol ar gymorth uwch reolwyr ac

ymgynghorwyr allanol. Gwna'r rheolwyr canol ddefnydd o ystod o weithgareddau monitro addas. Maent yn ymgyfarwyddo gyda'r drefn ond nid ydynt wedi ei feistroli'n llawn. Mae'r arfarniadau yn cynnwys gwerthusiad o safonau. Mae dealltwriaeth arweinwyr canol o sut i ddefnyddio data perfformiad i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella yn parhau i ddatblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r elfen hon o'u rôl wedi ei gwreiddio yng ngwaith rheolwyr canol. Mae lleiafrif o adrannau yn gwneud defnydd effeithiol o ganfyddiadau holiaduron disgyblion i wella'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cyfeirio'n addas at flaenoriaethau'r ysgol, gyda thargedau heriol a cherrig milltir priodol. Fodd bynnag, mae hyn yn ddatblygiad diweddar. Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer gwella ar lefel adrannol yn amrywio'n ormodol. Ym mwyafrif o'r adrannau mae defnydd priodol o dargedau mesuradwy i fesur cynnydd.

Nid yw'r ysgol wedi ymateb yn llawn i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Mae rhaglen gydlynus o ddatblygiad proffesiynol wedi ei sefydlu yn ddiweddar sy'n deillio o arfarniad o anghenion staff a'r ysgol. Mae hyn wedi cryfhau'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae cyswllt priodol rhwng y gweithgareddau hyn a thargedau rheoli perfformiad y staff. Fodd bynnag, nid yw'r rhwydweithio proffesiynol mewnol wedi ei ddatblygu'n llawn. Nid oes digon o rannu arfer dda gydag athrawon eraill yn yr ysgol neu tu hwnt.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn chwarae rôl gadarn mewn partneriaethau gyda darparwyr eraill i ehangu'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae partneriaeth a chysylltiadau buddiol gyda rhieni. Mae gwefan yr ysgol yn ddolen effeithiol i hysbysu rhieni a phartneriaid eraill am fywyd yr ysgol. Ceir partneriaethau gwerthfawr gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn ymgartrefu'n gyflym ym mywyd yr ysgol ac mae dilyniant yng nghwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn y pynciau craidd.

Mae partneriaethau bugeiliol da iawn yn sicrhau mai eithriadau prin iawn yw'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn ddigymhwyster neu sy'n cael eu gwahardd yn barhaol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o grwpiau a mudiadau cymdeithasol sydd yn darparu profiadau dysgu amrywiol i ddisgyblion, megis profiad gwaith a chyfle i ddisgyblion sy'n dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru gyfranogi yn y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon i addysgu'r cwricwlwm yn briodol. Mae ganddi hefyd ddigon o staff ategol i gefnogi gwaith athrawon yn effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r swyddog gweinyddol yn rhoi ystyriaeth lawn i ystod o wybodaeth berthnasol wrth baratoi cynlluniau. Mae'r cynlluniau hyn yn briodol fanwl a rhoddir cyfle i'r corff llywodraethol eu trafod cyn penderfynu arnynt.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau am wariant.  Caiff gwariant ei fonitro’n rheolaidd ac yn effeithiol iawn.  Mae adroddiadau mwyaf diweddar archwilwyr yn rhoi clod am weithdrefnau’r ysgol.  Defnyddir fformiwla briodol fel sail i’r dyraniad arian i adrannau.

Cafwyd tanwariant ym mhob un o’r pum mlynedd diwethaf, ond bob tro o fewn terfynau derbyniol.

Er gwaetha’r darlun cadarnhaol hwn, oherwydd y safonau digonol mae disgyblion yn eu cyflawni, bernir bod yr ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, dros y pedair blynedd diwethaf, mae'r dangosydd pynciau craidd wedi cynyddu'n sylweddol. Ers 2010, mae perfformiad wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ers 2011 mae ymysg y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3 wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2012, am y tro cyntaf, mae perfformiad mewn Saesneg ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2012 mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch yn well na chyfartaledd y teulu mewn gwyddoniaeth a mathemateg ond yn is na'r teulu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn 2011, roedd cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn dda iawn ond mae cynnydd disgyblion yn ystod y blynyddoedd blaenorol wedi bod yn sylweddol is na'r disgwyl.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2009, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi gwella ond ac eithrio 2011 mae'n dal i osod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ac eithrio 2011, mae perfformiad yn y dangosyddion hyn wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Ers 2009, mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd wedi gwella ond ac eithrio 2011, mae'n is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn 2011, roedd perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf o ran ysgolion tebyg ond eleni mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf. Ers 2009, mae canlyniadau'r trothwy lefel 1 wedi gwella ond yn dal i osod yr ysgol yn is na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Ers 2010, mae'r sgôr bwyntiau gyfartalog wedi'i chapio wedi cynyddu ond mae perfformiad yr ysgol yn dal i fod yn is na chyfartaledd y teulu ac yn 2012 roedd ymysg y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ers 2009, mae canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi cynyddu ond mae perfformiad 2012 yn y pynciau hyn yn unigol yn dal i osod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ran ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y Gymraeg wedi aros yn gymharol gyson. Ac eithrio 2010, mae perfformiad mewn Cymraeg wedi bod ymysg y 50% uchaf o ran ysgolion tebyg.

Yn y chweched dosbarth mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 a'r sgôr bwyntiau gyfartalog ehangach wedi bod yn amrywiol ond yn gyffredinol mae perfformiad yn y dangosyddion hyn yn is na chyfartaledd y sir a chyfartaledd yr awdurdod.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 267 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur.

Mae'r sampl hon yn cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol. Yn gyffredinol, mae ymateb y disgyblion yn fwy positif nag ymateb disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'r rhan fwyaf yn nodi bod ganddynt rywun i siarad gydag ef os ydynt yn poeni. Teimla'r rhan fwyaf o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda ac yn nodi bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer yn teimlo bod y gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn ei ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda.

Mae llawer yn teimlo bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt a bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf yn datgan bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn teimlo eu bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniodd Estyn 174 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed y rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn nodi bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod eu plant yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a llawer yn nodi bod disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg. Mae bron pob un yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a'r rhan fwyaf yn nodi bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae llawer o rieni'n teimlo bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf o rieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Ray Owen | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dylan Elfyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ellen Williams | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |